# Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Caerdydd
# **Adroddiad Blynyddol ar Adolygu Dyluniadau 2021**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /This document is also available in English

- Mae'r grŵp yn cynnwys y Tîm Creu Lleoedd a Swyddogion Rheoli Datblygiad sy'n prosesu ceisiadau cynllunio perthnasol.
- Cyfarfu'r grŵp Adolygu Dyluniadau 35 o weithiau yn 2021.
- Mae'r grŵp yn adolygu ansawdd dyluniadau datblygiadau yn erbyn polisïau dylunio mewn cynlluniau datblygu lleol perthnasol, canllaw cynllunio atodol mabwysiedig a hefyd gyngor arall, gan gynnwys Nodyn Cyngor Technegol Rhif 12 - Dylunio sydd gan Lywodraeth Cymru.
- Mae'r broses fwyaf buddiol o adolygu yn dechrau ar gam cyn cais cynllunio, fel arfer gyda chynlluniau cysyniadol bras, sy'n caniatáu am drafodaeth agored a chadarnhaol am y strwythur, y raddfa, a'r cymeriad ynglŷn ag unrhyw ddyluniad sy'n dod i'r amlwg ac a all gael ei ddatblygu'n gyflym i ganiatâd manwl. Nod y broses yw helpu i lywio ffurf a chymeriad datblygiadau newydd yng Nghaerdydd mewn modd cadarnhaol er mwyn sicrhau gwelliannau ar y dyluniad a helpu ymgeiswyr i gael caniatâd ar gyfer datblygu yn rhwydd.
- Cofnodir y drafodaeth ac adroddir ar y sylwadau yn ôl i ymgeiswyr pan fo angen gwneud adolygiadau.
- Trafodwyd 105 o gynlluniau yn y cyfarfod yn ystod 2021, gan gynnwys:

**Hen Safle Llaeth ar Sanitorium Road (21/00745/MJR):** A datblygu 59 o fflatiau a 15 o dai ar gyfer Cymdeithas Tai Unedig Cymru. Cafodd y cynllun ei addasu er mwyn rheoli maint yr elfennau mwyaf, a'u heffaith ar gartrefi cyfagos. Gofynnwyd hefyd am fwy o syniadau ar gyfer tirlunio'r mannau parcio.




**Sanitorium Road,** Penseiri Roberts Limbrick

**Hen Safle Brandon Tool Hire, Stryd Bute (21/01720/ MJR):**Datblygiad 45 fflat ar gyfer pobl oedrannus gan Gyngor Caerdydd. Bu trafodaethau cyn-ymgeisio helaeth ar y dyluniad gyda'r nod o leihau effeithiau ar gymdogion a thrafodwyd hefyd raddfa gyffredinol y cynllun o fewn cyd-destun Butetown.



**Ailddatblygu hen safle Brandon Tool Hire ar Stryd Bute**
Penseiri Allford, Hall, Monaghan Morris

**Uwchgynllun Arena Bae Caerdydd a'r Ardal Ehangach (21/02687/MJR):**
Roedd y gwasanaeth cynllunio wedi bod yn rhan o'r gwaith i archwilio iteriadau cynharach o'r cynllun hwn, gan gynnwys syniadau i gadw Canolfan y Ddraig Goch. Cafodd sefyllfa'r arena gefnogaeth eang. Fe wnaethom gwestiynu hyfywedd gwahanol agweddau ar yr uwchgynllun ehangach a gosodiad a graddfa arfaethedig y datblygiad preswyl dangosol. Ceisiwyd hefyd leihau graddfa'r prif sgwâr a'r gylchfan i'r dwyrain.



**Uwchgynllun Arena Bae Caerdydd a'r Bae Ehangach,** Penseiri Rio

**Ysgol Groes-wen (21/02709/MJR):**
Yr ysgol gyntaf i'w hadeiladu ar safle Plasdŵr. Yn fras roeddem yn gefnogi'r dyluniad cyffredinol, ond mae'r ysgol wedi'i lleoli y tu ôl i ardal wasanaethu fawr, a'r sefyllfa wedi'i gosod gan gydsyniad anghysylltiedig blaenorol. Ceisiwyd lleihau effaith hyn trwy wella tirlunio'r arwyneb caled a sicrhau llwybr da i fynedfa'r adeilad.



**Ysgol Groes-wen, Plasdŵr,** Penseiri Powell Dobson

**Tŷ Suffolk, Stryd Masnach:**
Byddai'r cynnig ar gyfer tŵr 25 llawr a datblygiad adain 8 llawr cysylltiedig yn ffurfio bloc fflatiau gydag elfen o weithgaredd masnachol ar y llawr gwaelod yn wynebu Stryd Masnach. Yn ystod y trafodaethau Cyn Gwneud Cais cytunwn y byddai graddfa'r tŵr a'r adain is
yn peryglu ffurf datblygiad ar safleoedd cyfagos a hefyd yn llethu'r stryd gul. Ystyriwyd bod y mynegiant pensaernïol yn ddiddorol.



**Cynnig Tŷ Suffolk yng nghanol dinas Caerdydd a model Bae Caerdydd**

**Tŷ Baltig (21/01037/MJR):**
Mae'r prosiect yn gweld addasu'r Tŷ Baltig rhestredig i ddefnydd preswyl, ynghyd ag estyniad newydd sylweddol i ddarparu ffrynt newydd amlwg i Stryd James. Sicrhawyd dyluniad sy'n cydweddu â chymeriad Ardal Gadwraeth Sgwâr Mount Stuart, gan reoli hefyd y trefniadau mewnol i sicrhau amwynder digonol i drigolion y dyfodol.



**Tŷ Baltig** Penseiri Westworks

**Coleg Cymunedol Llanfihangel:**
Cawsom drafodaethau cyn ymgeisio am ffurf a chymeriad cynllun ailddatblygu cynhwysfawr ar gyfer safle'r hen goleg cymunedol. Dan arweiniad y Cyngor a gan gynnwys Penseiri PRP a Powell Dobson, mae'r cynllun wedi'i ddylunio'n dda ac mae'n cyflwyno man cyhoeddus a chymysgedd newydd sylweddol o ddefnyddiau cymdogaeth a chartrefi i'r gymuned sefydledig. Fe wnaethon ni drafod cyfleoedd am gysylltedd gwell ar gyfer pobl sy'n cerdded a beicio.




**Coleg Cymunedol Llanfihangel** PRP a Powell Dobson

**Sgwâr Canolog:**
(21/02984/MJR)
Fe wnaethom adolygu cynnig ar gyfer tŵr preswyl ar Blot 5 o uwchgynllun y Sgwâr Canolog. Er bod y bwriad cyffredinol yn un uchelgeisiol a diddorol fe godon ni bryderon am amodau byw rhai cartrefi ar loriau is i'r gogledd, a'r agosrwydd cyffredinol ac effaith ar rai adeiladau cyfagos.



**Y Sgwâr Canolog** Scott Brownrigg

**Hyb Cymunedol Treganna (21/01806/MJR):**
Cynllun i ailddatblygu'r safle presennol a'r maes parcio cyfagos gyda 41 o fflatiau i bobl oedrannus, neuadd gymunedol newydd a
chae chwaraeon aml-bwrpas wedi'i adleoli. Roedd datblygiad y dyluniad, o egwyddorion cyntaf, wedi cynnwys trafodaethau gyda'r awdurdod cynllunio. Roedd trafodaethau parhaus am faint y datblygiad. Ystyriwyd agweddau eraill y cynllun yn welliant sylweddol i'r ardal.



**Ailddatblygu Hyb Cymunedol Treganna** Penseiri Allford, Hall, Monaghan Morris

**Swyddfa Tai'r Rhodfa Fawr:**
Adolygodd y cyfarfod syniadau cynnar ar gyfer ailddatblygu safle hen Swyddfa Tai Cyngor i greu 10 o fflatiau fforddiadwy. Fe wnaethon ni gefnogi egwyddor y cynllun ac awgrymu cynllun mwy effeithlon ar gyfer y safle.




**Hen Swyddfa Dai, y Rhodfa Fawr** Spring Design

**Cyfnewidfa Wuangron (21/01359/MJR):**
Ailddatblygu hen ganolfan ailgylchu gwastraff domestig i ffurfio cyfnewidfa fysus newydd ar gyfer gorllewin Caerdydd, a hefyd ddatblygiad defnydd cymysg o siopau llawr gwaelod a 44 o fflatiau fforddiadwy un a dwy ystafell wely uwchben. Cafodd y cynllun groeso brwd yn gyffredinol ar ôl dod i'r amlwg drwy broses ymgeisio helaeth a oedd wedi cymedroli'r raddfa a datblygu'r mynegiant pensaernïol yn benodol.



**Cyfnewidfa Wuangron** Penseiri Powell Dobson

**Adfywio Trem y Môr (21/01666/MJR):**
Cynllun cynhwysfawr i adfywio ystâd Trem y Môr ac adleoli cartrefi fforddiadwy ar gyfer preswylwyr oedrannus yn ddau dŵr newydd sy'n edrych dros Afon Taf a Pharc Marl. Roedd yr uwchgynllun wedi'i llunio gan y Tîm Creu Lleoedd. Mae'r cynllun yn gyffredinol yn cael ei ystyried yn ddarn da o ddylunio trefol, sy'n helpu i ail-blethu'r gymuned ddyfodol yn ôl i'w chyd-destun.



**Adfywio Trem y Môr** Penseiri Powell Dobson

**Hen Bingo Riva, Agate Street (21/01595/MJR):**
Cynllun 39 fflat fforddiadwy. Gwnaethom reoli graddfa'r adeilad a'i effeithiau ar amwynderau o fewn cyd-destun trefol tynn.




**Agate Street Hammond Pensaernïol**

**East Bay Close:** Wedi'i leoli gerllaw trosffordd, mae'r cynllun o 340 o fflatiau yn disodli cynllun myfyrwyr anhyfyw. Mewn trafodaethau cyn ymgeisio fe wnaethom ofyn am newidiadau i ffurf yr adeilad i agor y cwrt gorllewinol er mwyn caniatáu mwy o olau ar gyfer poblogaeth breswyl barhaol a hefyd i ganiatáu mwy o uchder ar y ffrynt. Gwnaethom fynnu darpariaeth chwaraeon actif o dan y drosffordd a rheoli mynediad drwy'r safle ar gyfer trigolion yn unig. Ystyriwyd bod y mynegiant pensaernïol yn dda ac yn ddiddorol.



**East Bay Close** Rutter Architects

**Parc Plasdŵr (21/02464/MJR):** Yn dilyn trafodaethau hir am y cartrefi oedd o flaen y parc wrth fynedfa Plasdŵr, llwyddodd y cyfarfod i gymeradwyo'r canlyniad hwn sy'n ceisio cymedroli llinell do a materoliaeth cartrefi. Y gobaith hefyd yw eu bod fel arall yn ffurfio ardal ddeniadol â chymeriad, yn wahanol i unrhyw gartrefi eraill Plasdŵr, fel y gofynnir yn yr uwchgynllun a'r cod dylunio.



**Parc Plasdŵr** Pegasus

**Tŷ Pearl, Heol y Sblot (21/00053/MJR)**
Adeilad amlwg yn ffurfio 12 fflat i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Roedd y safle yn arfer bod yn hen Eglwys Citadel, y Sblot. Ceisiwyd sicrhau nad oedd y datblygiad newydd yn effeithio mwy ar gymdogion na'r adeilad y mae'n ei ddisodli, a buom yn gweithio i wella i ffasâd amlwg a ffiniau blaen o fewn y strydlun.



**Tŷ Pearl, Heol y Sblot** Penseiri Austin Smith Lord

**Coleg Sant Ioan, Heol Greenway (21/02945/MJR)**
Cynnig ar gyfer 32 o dai a 25 o fflatiau ar safle a amlygwyd yn y CDLl. Mae rhaid i'r cynllun fod sensitif i'r ecoleg a thopograffi anodd sydd ar lethr ar i fyny'n sydyn y tu ôl i'r cartrefi. Roeddem yn croesawu'r amrywiaeth ar draws y safle a'r gofal wrth leoli'r adeiladau mwy i'r dwyrain. Awgrymwyd cyflwyno llwybr gogledd - de drwy'r safle gan ganiatáu cysylltiad â'r ysgol.

.



**Coleg Sant Ioan, Heol Greenway** Penseiri Austin Smith Lord

Mae’r broses adolygu dyluniadau wedi darparu sylwadau ymatebol ar ddyluniadau’r cynigion ar gam cyn cais a cham y cais i helpu i lywio ffurf a chymeriad datblygiadau newydd yng Nghaerdydd mewn ffordd gadarnhaol, er mwyn cynorthwyo ymgeiswyr i gael caniatâd datblygu. Mae’r broses wedi darparu adolygiadau o gynlluniau yn gyson er mwyn cyflawni gwelliannau ar ystod eang o faterion dylunio maestrefol, pensaernïol, tirlunio

ynghyd â chyngor ar yr hyn sy’n ddyluniad da a gwael mewn canllaw polisi dylunio cenedlaethol, Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd a hefyd yng nghanllaw cynllunio atodol mabwysiadedig Caerdydd. Mae’r rhain gael ar wefan y Cyngor. Gellir cael rhagor o gyngor hefyd gan dîm Creu Lleoedd, y gellir cysylltu â nhw ar y cyfeiriad e-bost isod.

***Defnyddir delweddau yn yr adroddiad hwn i ddangos ystod y cynlluniau a adolygwyd gan y gwasanaeth ar gamau amrywiol o’u cynnydd. Nid yw eu cynnwys yn dangos cefnogaeth i ddatblygiad gan Gyngor Caerdydd nac yn ceisio niweidio’r broses gwneud penderfyniadau cynllunio arferol.***

**Fersiwn: 4**
**05 Mehefin 2023**

**Cyswllt: dylunio@caerdydd.gov.uk**